CD2

# TYFU BWYD

The Learning Partnership Wales

Big Bocs Bwyd

## Pam tyfu bwyd?

- Mae'n darparu profiadau dysgu cyfoethog, dilys
- Gall garddio gyda'i gilydd gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgol a'i chymuned.
- Mae trochi eu dwylo yn helpu i gysylltu plant a phobl ifanc â byd natur.
- Mae garddio yn cryfhau systemau imiwnedd plant a phobl ifanc.
- Mae gweithio mewn gardd ysgol yn helpu plant a phobl ifanc i gadw'n heini, gan helpu i leihau gordewdra.
- Mae garddio yn cymedroli hwyliau ac yn lleddfu pryder.
- Mae plant a phobl ifanc sy'n garddio yn yr ysgol yn datblygu empathi ac yn ymarfer risg.
- Mae addysgu a gerddi bwyd yn gwella deiet plant a phobl ifanc.

## Beth sydd ei angen arnoch?

- *Dillad tywydd gwlyb a menig garddio*
- *Offer garddio – gan gynnwys offer llaw yn ogystal â whilberi/berfâu, rhawiau, rhacanau/cribiniau, hofiau, bwcedi, ysgubau a brwshys*
- *Pibell ddŵr, caniau dyfrio a photeli chwistrellu – bydd hyn yn sicrhau na fydd planhigion byth yn brin o ddŵr!*
- *Tap y tu allan yn sicrhau cyflenwad dŵr rhwydd i'w gael*
- *Casgen ddŵr – yn darparu cyflenwad dŵr rhwydd i blant ac mae'n ecogyfeillgar*
- *Potiau planhigion a chynwysyddion ar gyfer tyfu perlysiau.*
- *Bagiau clo sip tryloyw ailddefnydd i alluogi plant a phobl ifanc i weld systemau gwraidd*
- *Pridd, tyweirch, compost, bagiau tyfu*
- *Gwelyau uchel / llain llysiau - yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu trwy brofiad uniongyrchol. Bydd gan blant ddealltwriaeth well o ffynonellau bwyd a gallant hyd yn oed arbrofi gyda bwydydd newydd o ganlyniad i dyfu eu llysiau eu hunain*
- *Amrywiaeth o hadau, planhigion, perlysiau – mae'n bwysig gwirio eu bod yn gyfeillgar i blant. Potiau tyfu bioddiraddadwy ar gyfer eginblanhigion*
- *Bin/tomen gompost – mae'n darparu cyfleoedd i blant ddeall cysyniadau gwyddonol a dod yn fwy ymwybodol yn ecolegol*
- *Chwyddaduron*
- *Gwiail a delltwaith, cordyn/llinyn neu glymau a chaewyr plastig*
- *Labeli a marcwyr sy'n addas ar gyfer tywydd tu allan*
- *Llyfrau gwybodaeth, posteri, cardiau gwybodaeth ac ati mewn bocs/basged y gellir ei gludo allan yn hawdd*

CD2

# TYFU BWYD

The Learning Partnership Wales

Big Bocs Bwyd

**Cysyniadau Allweddol** Twf, Newid, Tymhorau, Cylchredoedd Bywyd, Pydredd

## Cwestiynau Allweddol

O ble mae ein bwyd yn dod?
A yw'n bosibl tyfu bwyd trwy gydol y flwyddyn?
Beth yw'r amodau sydd eu hangen ar gyfer tyfu gwahanol fwydydd?
Beth allwn ni ei goginio gyda'r bwydydd rydyn ni'n eu tyfu?
Pa fath o bridd sydd ei angen i dyfu bwyd?
Sut gallwn ni dyfu bwyd mewn mannau cyfyngedig/amgylchedd trefol?

## Pethau i'w tyfu

| | |
|---|---|
| Perlysiau | Rhosmari, Coriander, Basil, Dail cyri |
| Saladau | Amrywiaeth o Letys, Rhuddygl, Ciwcymbr, Tomatos, Sbigoglys |
| Llysiau | Ffa Gwyrdd, Cennin, Tatws, Pys, Wynwns/Nionod Coch, Corbwmpenni, Bresych |
| Ffrwythau | Mafon, Riwbob, Afalau, Gellyg |

## Profiadau dysgu posib

- Darganfod sut, pryd a ble i dyfu perlysiau, ffrwythau a llysiau
- Cynllunio'r cylchred blynyddol ar gyfer tyfu bwyd
- Paratoi'r pridd ar gyfer y twf gorau posib
- Plannu amrywiaeth o hadau mewn potiau, cynwysyddion patio, gwelyau uchel, llain llysiau
- Dod o hyd i gynwysyddion wedi'u hailgylchu a'u defnyddio i blannu hadau ynddynt
- Darganfod ffyrdd o farcio llinell syth ar gyfer plannu mewn gwelyau uchel/lleiniau llysiau
- Mesur yn gywir i sicrhau bod gan blanhigion unigol ddigon o le i dyfu
- Cofnodi'r tywydd yn ddyddiol – faint o law/oriau o heulwen /tymheredd
- Cofnodi'r broses 'had i blât' mewn gwahanol ffyrdd
- Creu labeli a chyfarwyddiadau gofalu am y planhigion
- Defnyddio'r enwau Cymraeg am bethau rydych chi'n eu gweld, eu gwneud, neu'n eu defnyddio yn yr ardd
- Arsylwi'r planhigion yn rheolaidd a chofnodi eu twf gan ddefnyddio lluniadau wedi'u labelu, ffotograffau ac ysgrifen. Cymharu a sylwi ar newidiadau dros amser
- Gofalu am eich planhigion gan roi'r amodau tyfu gorau iddynt
- Pan fydd eich cynnyrch yn barod dechrau ei gynaeafu
- Defnyddio'r cynnyrch rydych chi wedi'i dyfu i baratoi byrbrydau, saladau a phrydau syml ar gyfer ffrindiau a theulu
- Tyfu cawl - cennin a thatws
- Creu eich cardiau ryseitiau eich hun ar gyfer y bwyd rydych chi wedi'i dyfu. Cyhoeddi rhain ar gyfer defnyddwyr y Big Bocs Bwyd. Parwch hwy gyda chynnyrch sydd ar gael a chynnyrch tymhorol
- Gwerthu perlysiau, ffrwythau a llysiau dros ben yn y Big Bocs Bwyd
- Darparu cynnyrch i gegin yr ysgol i'w ddefnyddio ar gyfer prydau ysgol

## Gwefannau defnyddiol

https://schoolgardening.rhs.org.uk/home

https://www.growveg.co.uk/guides/how-to-set-up-a-school-garden/

https://learn.eartheasy.com/guides/how-to-start-a-school-garden-your-complete-guide/

https://www.quickcrop.co.uk/blog/grow-school-vegetable-garden/

https://www.wwf.org.uk/get-involved/schools/resources/food-resources

# CD2 TYFU BWYD

## Pedwar Pwrpas

### Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
Gosod safonau uchel iddynt eu hunain a cheisio a mwynhau her

### Unigolion iach, hyderus
Wynebu a goresgyn her

### Cyfranwyr mentrus, creadigol
Arwain a chwarae gwahanol rolau mewn timau yn effeithiol ac yn gyfrifol

### Dinasyddion moesegol, gwybodus
Ymdrin â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd

---

## Sgiliau Annatod

### Creadigrwydd ac arloesedd
Gallu cynhyrchu syniadau
Gallu troi syniadau yn weithred

### Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
Nodi atebion posib

### Effeithiolrwydd personol
Gwerthuso dysgu/cryfderau eu hunain a meysydd i'w datblygu

### Cynllunio a Threfnu
Gosod nodau
Rheoli amser

---

## Yr Hyn Sy'n Bwysig

**Gwydd-Tech**
Mae'r byd yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi

**I&Ll**
Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau pobl eraill

**M&Rh**
Mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol

## Disgrifiadau o Ddysgu

Gallaf gydnabod bod yr hyn rwy'n ei wneud, a'r pethau rwy'n eu defnyddio, yn gallu cael effaith ar fy amgylchedd ac ar bethau byw.

Rwyf wedi datblygu dealltwriaeth bod angen deiet cytbwys arnaf a gallaf wneud dewisiadau gwybodus am y bwyd rwy'n ei fwyta a'i baratoi i gefnogi fy iechyd a lles corfforol.

Gallaf amcangyfrif a mesur, gan ddefnyddio unedau ansafonol, cyn symud ymlaen i unedau safonol.

## Sgiliau Trawsgwricwlaidd

**Bl. 1**

**M&Rh**
Defnyddio unedau ansafonol i fesur hyd, uchder a phellter

**ILIC**
Cyfathrebu'n bwrpasol yn ysgrifenedig, e.e. gellir ei gefnogi gan lun

**Bl. 2**

**M&Rh**
Defnyddio unedau safonol i fesur hyd, uchder a phellter: metrau, hanner metrau neu gentimetrau

**LLC**
Ysgrifennu at wahanol ddibenion

**Bl. 3**

**M&Rh**
Defnyddio unedau safonol i amcangyfrif a mesur hyd: mesur ar bren mesur/tâp mesur i'r 1/2cm agosaf

**LLC**
Defnyddio arweddion nodweddiadol testunau syml di-dor a thoredig yn eu hysgrifennu eu hunain